

Cyfweliad Tystiolaeth Rhyngwladol 3 – Kari Smith (Norwy)

Hyrwyddwr– Dr Jen Farrar, Prifysgol Glasgow

Arbenigwr Rhyngwladol – Yr Athro Emerita Kari Smith, Prifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Norwy

Jen Farrar

Helo, mae'n bleser mawr gen i heddiw groesawu'r Athro Kari Smith i'n sgwrs ar-lein lle byddwn yn rhannu tystiolaeth o wahanol gyd-destunau rhyngwladol ac arbenigeddau o wahanol rannau o'r byd. Trwy wneud hynny rydym yn gobeithio creu cysylltiadau a gwneud cymariaethau â'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac i asesiad sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru.

Mae'n bleser o'r mwyaf eich cael chi yma heddiw, Athro Smith. Nawr, rydych yn Athro Emeritws ym Mhrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Norwy. Rydych yn athro dosbarth sydd wedi troi'n addysgwr ac mae gennych ddiddordebau ymchwil eang sy'n rhychwantu addysg athrawon, datblygiad proffesiynol, athrawon newydd ac asesiad gyda ffocws ar agweddau pedagogaid.

Ond a fyddai'n iawn i mi ofyn i chi ddweud ychydig bach mwy wrthym yn gyflym iawn am eich rôl a'ch diddordebau ymchwil?

Kari Smith

Iawn, Yn gyntaf oll, diolch o galon i chi am y gwahoddiad – mae'n anrhydedd i mi yn sicr. Ac fel y dywedoch chi, roeddwn yn athrawes amser maith yn ôl, am bron i 20 mlynedd. Ond byddwn yn dweud bod fy ngwaith fel athrawes wedi fy siapia go iawn, ac wedi siapia fy niddordebau ymchwil hefyd yn hwyrach ymlaen am fy mod yn anfodlon gyda'r system asesu oedd wedi ei seilio ar arholiadau yn unig. A rhoddais gynnig ar bethau (roedd rhoi cynnig ar bethau'n beth cwbl arloesol ar y pryd), er enghraifft, asesu portffolio, a gadael i'r dysgwyr benderfynu ar eu cyflwyniadau eu hunain. Roeddwn eisiau i'r dysgwyr roi cyflwyniadau da a chyflwyniadau nad oeddent yn hapus â nhw, ac yna ystyried pam. Yna, yn ddiweddarach, roeddwn eisiau dysgu mwy. Felly roedd fy ngradd Meistr yn ymwneud ag archwilio effaith arholiadau allanol ar gymhelliant myfyrwyr i ddyngu Saesneg fel iaith dramor. Ac roedd fy

Noethuriaeth ar hunanasesiad mewn dysgu Saesneg fel iaith dramor. Ac roedd hynny cyn troad y mileniwm. Mae'n ddigon arloesol mewn llawer o ffyrdd. Ond roeddwn yn teimlo mai dyna'r cyfeiriad yr oedd fy nghalon yn mynd iddo.

Yna deuthum yn addysgwr athro tra'r oeddwn yn gwneud fy PhD – addysgu a methodoleg addysgu Saesneg fel iaith dramor. A hefyd dysgais ymchwil athrawon, peth arall y mae gen i ddiddordeb mawr ynddo, ac asesu. A'r enw a roddaf i'r cwrs yw Asesiad fel Erfyn Pedagogaid. A chefais gryn dipyn o ryddid academiaidd am fy mod yn addysgu ar y pryd mewn Coleg Prifysgol yn Israel. Ac fel Pennaeth Addysg Athrawon, gallwn gyflwyno newidiadau yr oeddwn yn credu ynddynt.

Ond wedi i mi symud yn ôl adref i Norwy, wynebais rwystrau biwrocratiaeth academiaidd. Ac fe gymerodd flynyddoedd i wneud newidiadau, er enghraifft, i'r ffordd yr aseswyd y cwrs mewn addysg uwch. Ac roedd hynny'n gwneud i mi deimlo'n rhwystredig iawn oherwydd teimlwn, fel addysgwr athro, na allwn wneud yr hyn yr oeddwn eisiau ei wneud mewn gwirionedd, oherwydd roedd yn cymryd 2 flynedd cyn i chi sylwi ar y diwygiad a gallu ei weithredu. Felly, doeddech chi ddim yn gallu ei wneud yn ôl y myfyrwyr.

Roeddwn yn un o sylfaenwyr Ysgol Ymchwil Genedlaethol Norwy mewn Addysg Athrawon. A fi oedd gyntaf, Pennaeth y bwrdd yno. Ac yna deuthum yn Bennaeth, Pennaeth Academiaidd. Ac yn y fan honno cefais gryn dipyn o ryddid academiaidd, am fod yr ysgol ymchwil yn ychwanegol at addysg doethuriaeth y sefydliad. Felly, roedd hynny'n golygu bod yn rhaid i mi roi cymorth ychwanegol iddynt. Roedd gennym tua 260 o fyfyrwyr PhD, a phob un yn addysgwr athro, yn mynd drwy'r ysgol ymchwil a mwynheais hynny'n fawr, oherwydd roedd gen i'r rhyddid a'r arian i wneud y pethau y gallem.

Fy niddordebau ymchwil yw asesiad, neu dyna oedden nhw. Ond, yn ymwneud fwy ag agweddau pedagogaid a chymhellgar asesu. Dydw i ddim wedi cymryd llawer o ddiddordeb yn y seicometreg - yn ei wrthwynebu cryn dipyn mae'n debyg. A hefyd mae datblygiad proffesiynol athrawon ac addysgwyr athro. A nawr, yn ddiweddar, yn y degawd olaf fwy neu lai, mae ffocws gweddol gryf ar addysg doethuriaeth – ond gan ganolbwyntio yn y fan yma ar oruchwyliaeth doethuriaeth, ac adborth mewn goruchwyliaeth doethuriaeth. Felly gallwch weld bod yr asesiad yn dod i mewn yn y fan yma hefyd.

Felly, heddiw rwy'n Athro Emerita sylfaenol ac rwyf yn y sefyllfa ffodus o allu gwneud beth bynnag y dewisaf ei wneud ac nid beth sy'n rhaid i mi ei wneud. Ac mae hynny'n hyfryd [chwerthin].

Jen Farrar

Mae hynny'n hyfryd, ac mae'n wych gallu dysgu o'ch holl brofiad a gwybodaeth. A chredaf mai'r hyn roeddwn i'n ei weld yn y fan yma oedd synnwyr cryf bod eich gwaith i gyd wedi canolbwyntio'n drwm iawn ar y dysgwr unigol, p'un a ydyw'n rhywun yn yr ystafell ddosbarth, neu'n fyfyrwr PhD, ac yn edrych ar y math o adborth maen nhw'n ei gael sydd, wrth gwrs, yn berthnasol iawn i'r hyn rydym yn siarad amdano heddiw. Felly diolch i chi am hynny.

Felly, gawn ni geisio lleoli eich gwaith ychydig bach mwy yn ddaearyddol, o ran y cyd-destun lle'r ydych chi ar hyn o bryd yn Norwy. Sut fyddech chi'n disgrifio'r cwricwlwm sydd gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn yr ysgol sydd yn y cwricwlwm? Beth yw ei brif nodweddion ac egwyddorion os gwelwch yn dda?

Kari Smith

Ie, iawn. I ddechrau rwyf am roi gwybod i chi dw i'n meddwl am strwythur yr addysgu yn yr ysgol – efallai fod pawb yn gyfarwydd â hynny. Ac mae hynny'n cynnwys asesiad hefyd, ac yna ychydig eiriau am eich cwricwlwm chi. Ac yna, fel y dywedoch chi, rhai o'r prif nodweddion ac egwyddorion sydd gennym ni.

Mae'r ysgol yn orfodol yn Norwy am 10 mlynedd, 10 dosbarth. Mae hynny'n golygu'r 3 blynedd diwethaf, a elwir yn aml iawn yn Ysgol Uwchradd Is – blwyddyn wyth, naw a deg. Roedd yn rhaid i bawb wneud y rhain. Mae addysg uwchradd uwch yn wirfoddol ac mae hynny'n 3 blynedd i'r ffrwd academaidd a 4 blynedd i addysg alwedigaethol. Mae'r rhai sy'n cael addysg alwedigaethol yn cael 2 flynedd yn yr ysgol a 2 flynedd mewn prentisiaeth.

Yn y diwygiadau diweddaraf, ac fe ddof yn ôl at hynny, mae ei rychwant amser yn cael ei ymestyn, fel bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gallu gorffen eu haddysg uwchradd, yn enwedig yr addysg alwedigaethol. Am fod mwy o fyfyrwyr yn dewis y ffrwd academaidd na'r ffrwd alwedigaethol. Ond, mae'r nifer sy'n ymadael yn y ffrwd alwedigaethol yn bennaf – roedd tua 97% wedi aros yn yr ysgol uwchradd uwch ac roedd tua 81% wedi ei gwblhau i gyd. Ond

mae hynny'n golygu bod tua 89/90% yn y ffrwd academiaidd, a dim ond tua 70% yn y ffrwd alwedigaethol. A dyna hefyd pam mae estyniad yn y diwygiadau newydd erbyn hyn, gallai fod yn bwysig er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn cwblhau'r ysgol uwchradd.

Hefyd, does gennym ni ddim graddau o gwbl yn y 7 mlynedd gyntaf yn yr ysgol. Dim o gwbl. Trwy'r system gyfan mae asesiad athro. Ond dim ond mewn ysgol uwchradd y mae'r asesiad athro'n cael ei drosi'n radd. Ac mae rhai graddau arholiad, a byddaf yn esbonio hynny ac yn dod yn ôl ato'n nes ymlaen, oherwydd mae'n weddol gymhleth. Mae'r arweiniad yn dweud y dylai graddau athrawon fod yn gyfuniad o agweddau asesu i ddogfennu galluoedd myfyrwyr mewn amrywiol ffyrdd: gallai fod yn arsylwad, yn ddeialog, trafodaethau, perfformiadau, yr holl waith ysgrifenedig perthnasol, dysgu, logiau ac ati. Bob hanner blwyddyn mae'n rhaid i athrawon fod yn barod i ymateb i bethau fel: Beth mae'r myfyriwr yn ei feistroli nawr?; Beth mae disgwyl i fyfyrwyr ei feistroli yn yr hanner blwyddyn nesaf?; Ydy'r myfyriwr yn symud ymlaen?; a Beth sydd angen ei wneud neu ei newid, fel bod y myfyriwr yn gallu cyrraedd y nodau? Felly, mae'r rhain yn gwestiynau y mae'n rhaid i'r athrawon adrodd arnynt yn y sgwrs gyda'r myfyrwyr a hefyd gyda'r rhieni.

Ar ddiwedd blwyddyn 10 mae arholiadau gan y myfyrwyr a dewisir 2 bwnc drwy loteri – un ysgrifenedig ac un llafar. Mae'r arholiad ysgrifenedig yn ganolog, ac mae'r myfyrwyr wedi dewis sefyll yr arholiad mewn un o'r 3 phwnc. Gallai fod yn fathemateg, Norwyeg neu Saesneg, dydych chi ddim yn gwybod pa un tan 2 ddiwrnod cyn yr arholiad.

Mae'r ail arholiad yn cael ei weinyddu'n lleol ac mae'n llafar a gall hynny fod mewn unrhyw un o'r pynciau ysgol eraill. A hefyd eich bod yn cael eich dewis i'w wneud, a does gennych chi ddim syniad o flaen llaw pa arholiad gewch chi. Felly fel y gwelwch chi, mae'r system yn ddiddorol.

Jen Farrar

Ydw dw i'n gweld! Mae'n ddrwg gen i dorri ar draws – ydy hynny'n drefniant hirsefydlog?

Kari Smith

Rydym wedi cael hynny am ychydig flynyddoedd – ie, ers ychydig flynyddoedd erbyn hyn [chwerthin]. Bydd yn mynd yn fwy diddorol. Mae pob myfyriwr ar ddiwedd yr ysgol orfodol yn cael tystysgrif ysgol orfodol – hynny yw ar ddiwedd blwyddyn deg, fel rhywbeth ar yr

ochr – hyd yn oed os ydyn nhw'n methu yn y pwnc. Felly byddant yn dal i gael tystysgrif i ddweud eu bod wedi mynd i'r ysgol ac wedi cwblhau'r ysgol.

Yna rydym yn mynd i'r ysgol uwchradd uwch, ac yn y fan honno mae'r system arholiadau yn weddol debyg. Mae graddau'r athrawon a'r graddau arholiad wedi eu hysgrifennu ar y dystysgrif, a byddaf yn dod yn ôl at y cydbwysedd rhyngddynt.

Ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd uwch, mae 20% o'r myfyrwyr, dim ond 20% o'r myfyrwyr ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd uwch yn cael eu dewis i sefyll arholiad mewn unrhyw bwnc y maen nhw'n ei astudio. Gall fod yn ysgrifenedig, ymarferol neu'n llafar yn dibynnu ar y pwnc, ond dim ond 20% sydd. Felly mae'n dipyn o loteri.

Yn ail flwyddyn yr ysgol uwchradd uwch, mae'r myfyrwyr i gyd yn sefyll un arholiad sydd wedi cael ei ddewis iddyn nhw. Ac yn y flwyddyn derfynol, mae'n rhaid i'r myfyrwyr i gyd sefyll arholiad ysgrifenedig yn eu prif iaith, a allai fod yn un o'r 2 iaith Norwyaidd, neu mewn Sami – yr iaith Sami. Wna i ddim trafod y ffaith bod gennym 2 iaith Norwyaidd, ond dyna sydd gennym ni iawn? [chwerthin]

Hefyd, mae'n rhaid i'r myfyrwyr i gyd sefyll 3 arholiad arall, sydd unwaith eto'n digwydd drwy loteri. A dydyn nhw ddim yn gwybod tan gwpwl o ddiwrnodau, ar y mwyaf, cyn yr arholiad. Felly ar ddiwedd yr ysgol uwchradd, mae'n rhaid i'r myfyrwyr i gyd fod wedi sefyll 5 arholiad ac mae 20% wedi sefyll 6 arholiad. Ond er bod gradd yr athro'n cyfrif am 80%, mae gradd yr arholiad yn goresgyn gradd yr athro.

Jen Farrar

O?

Kari Smith

Felly mae hynny'n golygu os yw'r athro wedi rhoi gradd pasio, ond gradd yr arholiad yw methiant, mae'r myfyriwr yn methu'r cwrs ac nid yw'n cael y dystysgrif fetrig. Felly, gallwch weld, rydym ni'n meddwl bod gan athrawon Norwyaidd 80% o'r radd ac ati, ond gallwch weld sut mae gradd yr arholiad yn dal i'w reoli.

Jen Farrar

Gallwch.

Kari Smith

Felly mae'n beth diddorol; tric diddorol sy'n dal i fodoli.

Jen Farrar

Ga i dorri ar draws i ofyn yn sydyn, mae gen i lawer o gwestiynau, ond pa mor aml mae diffyg cyfatebiaeth yn codi rhwng beirniadaeth yr athro a methiant yn yr arholiad?

Kari Smith

Y broblem yw bod athrawon wedyn yn seilio eu graddau i raddau mawr ar arholiadau metrig blaenorol (hynny ydy, ar y profion maen nhw'n eu rhoi iddynt). Ydych chi'n deall? Yn lle defnyddio'r holl waith asesu cyffredinol y siaradais amdano'n gynharach. Dyna'r broblem, oherwydd dydyn nhw ddim eisiau bod yn rhy bell i ffwrdd oddi wrth gradd yr arholiad.

Jen Farrar

Grêt.

Kari Smith

Felly dyna fy meirniadaeth gref. Mae'n swnio'n wych – gradd athro o 80%. Ac yn y pynciau hynny lle dydyn nhw ddim yn sefyll yr arholiad, mae'n wych, oherwydd mae'n 100%. Ond wedyn, mae gennych y rheol gref hon. Felly o ganlyniad mae'r flwyddyn olaf yn yr ysgol uwchradd yn dal i gael ei rheoli'n gryf iawn gan yr arholiad.

Jen Farrar

Mae'n system ddiddorol.

Kari Smith

Ydy, mae'n system ddiddorol. Dydw i ddim yn siŵr mai dyma'r system orau, ond mae'n system ddiddorol. A dyna fel mae hi.

Jen Farrar

Beth yw'r rhesymeg y tu ôl i roi 2 i 3 diwrnod o rybudd am yr arholiad? Ydy hynny i wneud yn siŵr bod yr arholiad yn dangos ciplun sy'n weddol realistig o faint o ymdrech mae'r

dysgwyr yn ei wneud i baratoi ar gyfer arholiad? Neu beth ydy'r rhesymeg am y cyfnod rhybudd byr yn hytrach na chyfnod rhybudd hir?

Kari Smith

[Y rhesymeg yw] Na ddylai'r myfyrwyr ganolbwyntio ar arholiadau, pynciau, penodol fel bod yn rhaid i chi fod yn barod ar gyfer unrhyw beth; i gael eich dewis ar gyfer unrhyw bwnc. Felly, allwch chi ddim dweud eich bod yn anelu at gael 5 mewn mathemateg – 5 yw'r sgôr da yn awr – eich bod yn mynd am 5 mewn mathemateg, ond rydych yn mynd am 3 mewn hanes. Allwch chi ddim gwneud hynny yn ystod y flwyddyn, oherwydd efallai y byddwch yn gwella eich gradd mewn hanes, ond nid mewn mathemateg. Neu fel arall.

Jen Farrar

Gwych. Iawn.

Kari Smooth

Felly dw i'n credu mai dyna'r rheswm.

Jen Farrar

Iawn, diolch [chwerthin]

Kari Smith

Felly, os byddwch yn edrych ar y cwricwlwm ychydig bach, pan oeddem yn siarad am y system arholiadau ddiddorol yma, mae'r cwricwlwm yn Norwy'n cael ei reoli gan yr hyn a alwn yn Ddeddf Addysg. Ac mae hynny'n ganolog iawn. Mae ganddi ran gyffredinol, a rhan sy'n ymwneud â'r pynciau.

Felly, mae prif egwyddorion y llwybr cyffredinol yn cynnwys (ac yn y fan yma efallai y byddwch yn adnabod o leiaf rhywfaint ohono yng Nghymru a'r Alban): gwerth pob unigolyn; hunaniaethau a diwylliannau niferus; meddwl beirniadol ac ymwybyddiaeth foesegol; creadigedd, ymgysylltu, a chwestiynu neu ymchwilio safiad; parch at natur ac amgylchedd, a democratiaeth a chyfranogaeth. Felly mae'n rhaid i bob athro ymhob pwnc gofio hyn pan maen nhw'n addysgu. Dyma dargedau cyffredinol addysg mewn ffordd.

Yna mae gennym, mewn perthynas ag asesiad, mae gan yr holl fyfyrwyr yr hawl gyfreithiol i dderbyn asesiad ffurfiannol. Ac mae'r ail ran yn cynrychioli'r nodau cymhwysedd ymhob pwnc, ac mae'r nodau hyn yn cael eu safoni ac maen nhw i fod yn rhagweithiol. Felly gallwch fy ngweld i'n defnyddio 'dyma fel y dylai fod', y ffurf honno o'r frawddeg, gallwch weld y byddaf yn feirniadol o bosib, ond gallwch siarad am hynny yn nes ymlaen. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng y cwricwlwm ac asesiad. Ac mae hyn yr un fath – naill ai mae'n asesiad athro neu'n arholiadau. Felly mae perthynas agos. Bydd yr athro hefyd yn gwneud yn siŵr ei fod ef neu ei bod hi yn asesu yn unol â'r nodau cymhwysedd.

Jen Farrar

Ac a yw'r nodau cymhwysedd hyn yn cysylltu yn ôl at y sgysiau roeddech chi wedi eu crybwyll ychydig yn gynharach am y cwestiynau craidd hyn – beth sydd angen, beth mae'r, sut mae'r myfyriwr yn meistroli gwybodaeth? Sut maen nhw'n symud ymlaen? Felly a yw'r nodau cymhwysedd hyn wedi eu cysylltu â'r mathau hyn o drafodaethau y sonioch chi amdanynt sy'n digwydd yn yr uwchradd is?

Kari Smith

[oedi] Dw i'n meddwl y dylent fod, a dyna'r bwriad.

Jen Farrar

lawn.

Kari Smith

Dydw i ddim yn hollol siŵr beth ydyn nhw. Dw i'n meddwl bod y nodau cymhwysedd yn ymwneud fwy â'r cwricwlwm yn eu pwnc penodol.

Jen Farrar

lawn.

Kari Smith

Mae'n ddrwg gen i.

Jen Farrar

Na, mae'n iawn. Felly mae'r nodau cymhwysedd safonol hyn, maen nhw'n benodol i bwnc felly maen nhw'n amlinellu cynnydd ymhob maes?

Kari Smith

Ydyn. A byddwn yn dod yn ôl at hynny oherwydd mae gennych y cwestiwn yn nes ymlaen. Felly, ie.

Jen Farrar

lawn, diolch. lawn, os ga i ofyn i chi felly, hynny ydy, mae hynny'n hynod o ddiddorol a diolch i chi am eich disgrifiad diddorol iawn. Felly rydych wedi sôn bod hyn wedi bod yn ei le ers cryn amser yn barod. A gafwyd diwygiadau diweddar iddo? A gafwyd unrhyw newidiadau diweddar? Allech chi ddweud ychydig bach wrthym am ba newidiadau a gafwyd a sut mae'r newidiadau hyn wedi cael eu derbyn?

Kari Smith

Ie, iawn. Mae rhai o'r newidiadau diweddar, ac yn wir, y cwricwlwm neu'r ddeddf addysgol yn mynd i gael eu hadolygu erbyn hyn. Efallai y byddaf yn edrych ar rai o'r prif bethau a ddaw allan yn yr awgrymiadau ar gyfer yr adolygiad. Does dim wedi ei benderfynu, ond mae cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer yr adolygiad wedi eu cyhoeddi, a gallwn ni ymateb iddynt o hyd. Un peth sydd ar waith yn barod yw ffocws cryf ar yr hyn a alwn yn ddysgu manwl. Mae wedi ei ddiffinio fel datblygiad graddol gwybodaeth a dealltwriaeth hir o gysyniadau, dulliau a pherthnasoedd o fewn pynciau a rhwng pynciau astudio. Felly, dysgu traws-ddisgyblaethol. Mae hyn yn golygu eich bod yn ystyried eich dysgu eich hun ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn ffyrdd gwahanol, mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd ynghyd ag eraill. Felly mae hyn yn ddiffiniad grymus iawn ddywedwn i o ddysgu manwl. Ond y cwestiwn yw hyn, sut mae'n cael ei drosi i'r ymarferol, a beth mae'r athrawon yn ei wneud ag o? Ac yn y fan yma, nid yw'r gwaith dilynol am y diffiniad yma wedi bod yn ddigon cryf, yn fy marn i, i wneud i athrawon ddeall a gweld sut maen nhw'n gallu ei weithio'n dda, neu ei drosi i'w haddysgu nhw eu hunain. Felly mae hynny'n broblem, credaf i, yn Norwy – rydym yn dda iawn, fel y byddaf yn dweud yn nes ymlaen, am ei ysgrifennu, "y llythyren", ond o'i roi ar waith, dydw i ddim yn siŵr ei fod yn gweithio'n dda.

Jen Farrar

Ydych chi'n golygu, felly, bod y dysgu manwl hwn, datblygiad graddol gwybodaeth a chysyniadau, yn cael eu penderfynu'n ganolog mewn ffordd safonol? Neu ydy e'n rhywbeth sy'n cael ei benderfynu ar lefel ysgol neu lefel adran?

Kari Smith

Sut i fynd o'i chwmpas hi yw rhywbeth a fydd yn cael ei wneud ar lefel yr ysgol, lefel yr adran, ac ati. Ond, mae'r diffiniad fel sydd gennych chi, mae hwnnw yno. A'r cam hwn, pan fyddwn yn siarad am hynny, pan fyddwn yn siarad am ddiwygiadau mwy newydd, mae cam yno sydd ar goll – sut mae'r athrawon yn ei droi i mewn i weithredoedd. Mae'r rhain yn eiriau gwych. Dw i'n cytuno gyda phob gair. Gwych. Ond mae'n rhaid iddynt gael eu troi'n weithredoedd.

Jen Farrar

Oes.

Kari Smith

Ie, dyna un o'm mhroblemau i gyda'r hyn sy'n digwydd gyda diwygiadau. Ond fe ddown ni at hynny.

Jen Farrar

lawn

Kari Smith

Newid arall rydym wedi ei weld yw'r cymorth wedi ehangu a ddefnyddir yn yr ysgol uwchradd, o ran amser, y posibilrwydd o newid rhaglenni astudio. Rydych wedi cychwyn ar rywbeth, rydych yn sylweddoli nad yw'n gywir i chi, yna gallwch newid. A dydy e ddim, mae'n iawn nad oeddech yn gallu gwneud cynt. Ac mae proses ddilynol i gadw llygad craff ar fyfyrwyr sy'n absennol o'r ysgol yn aml. Hynny yw, yn y gorffennol os oeddech yn absennol o'r ysgol, a doeddech chi ddim yn dod i'r ysgol ddigon, doeddech chi ddim yn gallu sefyll yr arholiad am nad oedd gennym ddigon o amser. Nawr rydym yn cadw llygad mwy craff ar yr hyn sy'n digwydd. Pam na ddaethon nhw i'r ysgol? Ac yn y blaen. A dw i'n meddwl bod hyn yn gadarnhaol iawn. Ac mae'n arbennig o bwysig i fyfyrwyr ar y rhaglenni galwedigaethol.

Peth arall sydd wedi dod i'r amlwg tipyn, yw bod mwy o sylw'n cael ei roi i fyfyrwyr yn Norwy – eu hawliau i gael eu clywed. A chyfranogaeth myfyrwyr yn eu dysgu eu hunain, y tu hwnt i fyrddau myfyrwyr, ac ati ac ati fel oedd gennym bob amser. Byddai'n ddiddorol gweld sut y cedwir llygad ar hyn. Rydw i newydd ysgrifennu papur arno mewn cylchgrawn ymarferol i athrawon lle'r ydw i'n honni bod cyfranogaeth y myfyriwr yn dibynnu i raddau mawr ar safiad pedagogaid, credoau a gwerthoedd yr athrawon. Rwy'n credu mai yn y fan honno y mae angen i chi ganfod sut i gynnwys y myfyrwyr.

Peth arall, sydd â ffocws cryfach yn y diwygiad, yw y dylai addysgu er daioni pob myfyriwr fod yn hawl gyfreithlon. Dylai'r myfyrwyr gael yr hawl gyfreithlon i addasu'r addysgu.

Jen Farrar

lawn

Kari Smith

Sylwch ein bod ni'n canmol hynny.

Jen Farrar

le, ie.

Kari Smith

Ac eto, does dim llawer yn cael ei ddweud, fodd bynnag, ynglŷn â sut i wneud hyn eto.

Ac yna mae gennym y ddadl barhaus am arholiadau. Yn ystod Covid, cafodd yr arholiadau i gyd eu canslo yn Norwy, a rhoddodd yr athrawon raddau ar gyfer yr asesiad cyfansymiol am 3 blynedd. Roedd hynny hefyd yn golygu derbyniad i addysg uwch. A doedd addysg uwch ddim yn gwrthwynebu hyn o gwbl. Ac eto, mewn astudiaeth fach yr ydw i wedi ei gwneud gyda 2 gydweithiwr, gwelsom ... na, am nad oedd unrhyw arholiadau, doedd dim addysgu tuag at yr arholiadau, ac mae hynny'n golygu bod mwy o amser yn cael ei dreulio ar ddysgu'r cynnwys, y pynciau, ac yn hynny y mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn addysg uwch. Felly, roedd hynny'n ganfyddiad diddorol.

Eleni, cafodd yr arholiadau cyfansymiol eu hail gyflwyno yn y ffurf y soniais amdano wrthyich. Ond, nid heb dipyn go lew o drafodaeth, yn benodol o ochr y myfyriwr. Roedden nhw'n lleisio eu barn go iawn, oherwydd roedden nhw'n dweud bod cymaint o straen yn yr

arholiadau hyn, er mai dim ond 20% ydyn nhw. Mae cymaint o straen ar eu cyfer nhw, mae'n achosi cymaint o straen iddyn nhw nes ei fod yn tynnu'r ffocws oddi ar eu cymhelliant i ddysgu.

Felly mae'n ymddangos, beth bynnag a ddysgwyd gennym yn ystod Covid, nid yw wedi datblygu. A dydw i ddim yn meddwl ein bod wedi cymryd y cyfle ddigon i wneud newidiadau. Doedden ni ddim wedi ei ddeall, yr holl gyfleoedd a gawson ni. Rydym yn ôl yn yr hen eto – mae'r hen normal wedi dod yn normal newydd eto. A hynny, rydw i ychydig yn feirniadol o hynny. Cawsom gyfle bryd hynny pan fyddem wedi gallu gwneud newidiadau go iawn.

Jen Farrar

Ond rydych wedi dweud bod y rhain yn awgrymiadau ar gyfer diwygiad sy'n digwydd ar hyn o bryd? Felly mae cyfleoedd o hyd i...?

Kari Smith

Oes, felly dydw i ddim wedi awgrymu'r ddadl am arholiadau, dw i'n cymryd hynny yn ôl, oherwydd mae hyn hefyd yn rhywbeth yr ydym yn ei drafod dipyn go lew yma yn Norwy, yr arholiadau. Ond nid yw wedi ei gynnwys yn yr awgrym ar gyfer y diwygiad newydd.

Jen Farrar

Iawn. Felly bydd lefel yr arholiad ar hap yn parhau, er y byddai hynny, yn fy meddwl i, yn awgrymu bod rhai tensiynau gyda hynny? Y newid rydych wedi sôn amdano gyda chyfranogaeth y myfyrwyr yn eu dysgu eu hunain, a phethau felly wyddoch chi. Yna mae, ac wrth gwrs, mae hynny'n cyfeirio yn ôl at eich diddordeb chi eich hun yn eich ymchwil, rhoi'r dysgwr yn y canol a chanfod ffyrdd iddyn nhw gymryd rhan yn eu hunanasesiad.

Kari Smith

Ac mae'n ddiddorol, oherwydd yr hyn maen nhw'n ei wneud yw, maen nhw hyd yn oed yn dyfynnu Datganiad y Cenhedloedd Unedig – hawliau'r plentyn. I ddweud ei fod mor gryf – ydy mae mor gryf â hynny. Ac yna rydych yn awgrymu eu bod yn dyfynnu hyn. Y llais, y gofod, yr effaith, y dylanwad. Pob un o'r 4 prif beth yma y mae Lundy wedi eu trosi yn ei

model – mae'n crybwyll hynny. A bydd yn ddiddorol gweld sut mae hyn yn cael ei weithredu yn y dosbarth.

Jen Farrar

Hmm, gwir. Felly o'r diwygiadau hyn, ac rydych wedi crybwyll rhai o'ch pryderon eich hun yn barod am y pethau hyn, mae synnwyr go iawn yma o'r tensiynau sy'n dod i'r amlwg gyda'r diwygiadau hyn. Rydych wedi cyfeirio at Covid, a'r dysgu sydd wedi dod o Covid. Ac rydw i'n bwriadu symud ymlaen at rywfaint o'ch ymchwil a'ch syniadau chi eich hun. Rydych wedi ysgrifennu, rydych wedi disgrifio, weithiau, yn nhermau'r tensiynau sy'n gallu bodoli rhwng yr hyn a ysgrifennwn mewn dogfennau polisi a beth sy'n dod i'r amlwg wrth eu defnyddio. Rydych wedi disgrifio hyn fel "ymarfer cosmetig" – rydych wedi cyfeirio'n barod at rywfaint o hyn. Ond a fydddech chi'n gallu esbonio ychydig bach mwy wrthym beth olygwch chi pan ddywedwch chi hynny?

Kari Smith

Ie, nawr rydych yn mynd i'm cychwyn i arni go iawn [chwerthin]. Pan feddyliais am siarad â chi meddyliais sut i geisio gwneud hyn ychydig yn fwy clir, ac mae wedi fy helpu go iawn hefyd i'w wneud ychydig yn fwy clir i mi fy hun. Dw i'n credu bod cyflwyno unrhyw ddiwygiadau yn broses 3 cham. A'r cam cyntaf yw'r hyn a alwn "y llythyren", cynnwys a geiriad y diwygiad. Mae'n rhaid i hwn fod wedi ei seilio ar dystiolaeth. A phan fyddaf yn siarad am dystiolaeth, dw i'n golygu ymchwil – tystiolaeth ymarferol feintiol yn ogystal ag ansoddol, o brofiad gan ddefnyddwyr y diwygiad sydd ar y gweill, a barn arbenigwyr. Felly mae tystiolaeth yn fwy na dim ond diagram neu beth bynnag i mi. Ac mae'r dystiolaeth yn cael ei chasglu o, yn gorfod cael ei chasglu o sail wybodaeth ryngwladol, ac yn fwy na dim, genedlaethol. Felly dylid addasu geiriad y diwygiad ar gyfer y cyd-destun cenedlaethol, ond aros yn ddigon agored i gael ei addasu i'r cyd-destun lleol, ac mae hynny yn agored iawn – un o'r heriau sydd gennym.

Yr ail gam yw'r defnyddwyr yn cymryd perchnogaeth ar y diwygiad. Mae'n rhaid i'r defnyddwyr gredu yn y newidiadau – credu y bydd yn fuddiol i'w myfyrwyr.

Mae'n rhaid iddynt fewnoli'r newidiadau, dyna sut rydw i'n ei ddisgrifio. Ei gael o dan eu croen, dod o hyd i ffyrdd o fod yn ffyddlon i'w credoau pedagogaid a disgyblaethol eu

hunain wrth weithredu'r newidiadau hyn. Ac mae angen iddynt gymryd perchnogaeth ohono, fel y dywedais. Rydw i'n galw hyn yn "ysbryd" y diwygiad, y mae'r athrawon yn ei dderbyn.

A'r trydydd cam yw gweithrediad ymarferol y newidiadau yn yr ysgol. A dyma sut mae llythyren y diwygiad yn cael ei drosi'n weithredoedd yn y dosbarth. Ond, dw i'n credu ein bod yn anghofio bod y broses o weithredu diwygiad yn cymryd amser - mae'n cymryd blynyddoedd. A fy mhryder i yw nad yw cam 2 yn cael ei gymryd o ddifrif ddigon, a'r cam yma yw'r broses fwyaf cymhleth ac sy'n cymryd y maint mwyaf o amser yn fy meddwl i. Felly, os bydd unrhyw amser yn cael ei dreulio arno, mae llythyren y diwygiad yn agored iawn – cam un. Felly mae'n cael ei drosi'n ymarferion a gweithgareddau o'r top i lawr. Ac mae athrawon yn cael y syniadau hyn o ddiwrnodau astudio, darlithoedd unwaith yn unig, llawlyfrau, ac ati o beth i'w wneud yn yr ystafell ddosbarth. Dyma'r pethau rydw i'n eu galw'n newidiadau cosmetig. Y brif esiampl yw – ac nid yw hyn am fy mod yn gwrthwynebu'r syniadau a glywaf, ond rwy'n cymryd esiamplau – rydym wedi gweld hyn yn cael ei weithredu yn Norwy. Mae athrawon yn defnyddio goleuadau traffig, er enghraifft. Fe wyddoch am y system asesu sy'n defnyddio goleuadau traffig – Dylan Williams, mae'n gredyd iddo. Am eu bod wedi clywed y syniad yn y ddarlith. Neu hunanasesiad gan ddefnyddio ffurflen wyneb yn gwenu am fod y diwygiad yn dweud y dylid defnyddio hunanasesiad. Ond, dydy'r rhesymeg bedagogaid a chymhellgar ddim wedi cael ei esbonio'n ddigonol. Ac nid yw ysbryd y diwygiad wedi ei fewnoli. Felly maen nhw'n ei wneud yn awtomatig. Dydyn ni ddim yn gwybod pam maen nhw'n ei wneud.....os deallwch chi.

Ga i roi hanes personol iawn yma?

Jen Farrar

Gwnewch, plis.

Kari Smith

Yr enghraifft oedd hyn, mae gen i 4 mab. Iawn? Roedd un ohonynt yn darllen pan oedd yn bedair oed. Wnaethon ni ddim ei ddysgu i wneud hynny, fe ddysgodd wneud a dyna ni, iawn? A daeth i'r ysgol pan oedd yn 6 oed, ac ar ôl hanner blwyddyn, ychydig fisoedd yn yr ysgol, erbyn adeg y Nadolig, cawsom ein galw i mewn gan yr athrawes, ac fe ddywedodd hi,

mae'n rhaid i ni feddwl am roi [enw] mewn dosbarth arbennig oherwydd efallai bod ganddo broblemau darllen. Ac roeddem ni wedi synnu'n arw am ei fod yn darllen yn rhugl. Ac fel athro ieithoedd, roeddwn yn deall y funud y dywedodd hi, "Do, rydym wedi rhoi prawf caeedig iddo" – wyddoch chi, y profion caeedig? Lle mae pob nfed gair wedi ei hepgor yn y testun. A dydy [enw] ddim yn defnyddio – gallwch weld ymatebion [enw], dydyn nhw ddim y rhai cywir. Ac yna dywedais "Sut wnaethoch chi gywiro'r prawf caeedig yma?" Roedd gen i PhD mewn Addysg yn barod, ac roeddwn yn athro ieithoedd, felly roeddwn yn gwybod beth roedd hi wedi'i wneud neu beth roedd hi wedi bod yn ei wneud. Ac yna dywedodd hi, "Fe welwch chi yma, mae cronfa o eiriau, ac roeddwn i wedi ysgrifennu'r geiriau yma am eu bod nhw newydd gychwyn darllen. Felly mae'n rhaid iddyn nhw ddod o hyd i'r gair cywir o'r gronfa a'i roi i mewn, a'i ddileu o'r gronfa". Ac yna deallais i, a dywedais "Ydych chi wedi darllen testun [enw]? Ydych chi wedi darllen sut mae wedi ei lenwi i mewn, neu ydych chi ddim ond wedi edrych ar yr atebion ar gyfer y lefel pasio, neu'r ymatebion? Gadewch i ni ei ddarllen gyda'n gilydd." Ac yna aethom ati i'w ddarllen gyda'n gilydd ac roedd yn gwbl wych – yn gwbl ddealladwy. Oherwydd doedd dim rhaid i [enw] ddefnyddio'r gronfa, defnyddiodd ei eiriau ei hun.

Jen Farrar

Cyfystyron?

Kari Smith

Yn union. Roedd ganddo ei eiriau tebyg ei hun – roedd ganddo eirfa lawer mwy cyfoethog. Ac felly dyna'r pwynt. Roedd hi wedi dysgu techneg mewn addysg athro, ond doedd hi ddim wedi dysgu am y rhesymeg y tu ôl i'r dechneg, y ddamcaniaeth bendant mewn seicoleg. Felly dyna beth rwy'n ei alw'n newidiadau cosmetig, ac maen nhw'n beryglus. Felly diolch byth – mae o'n llwyddiannus erbyn hyn, gyda nifer o raddau prifysgol, ac yn y blaen. Felly does gennym ni ddim problem; gallai ddarllen [chwerthin]. Ond dyna'r pwynt sydd gen i – maen nhw'n gwneud hyn am eu bod wedi clywed amdano a dydyn nhw ddim yn deall pam – pam mae'r dechneg hon yn dod trwodd.

Jen Farrar

Ac felly beth yw'r, i symud felly, o'r ddealltwriaeth arwynebol hon, rydym angen amser, ai hynny rydych chi'n ei feddwl? Mae'n rhaid i ni gydnabod yr amser hwnnw, wyddoch chi, ond sut ydym ni'n mynd ati i wneud hynny?

Kari Smith

Fel y dywedoch chi, dw i'n meddwl bod yn rhaid rhoi amser i athrawon ddod o hyd i'w ffyrdd eu hunain. I roi cynnig ar dechnegau maen nhw wedi eu dysgu a'u haddasu nhw i'w credoau a'u sefyllfa bedagogaid eu hunain – ac yn bwysicaf oll, i'w myfyrwyr eu hunain.

Dw i'n meddwl mai'r prosesau gweithredu mwyaf llwyddiannus rwyf wedi ymwneud â nhw yw pan mae'r ysgol, yn cynnwys y pennaeth, yn cymryd rhan mewn proses ymchwil i weithredoedd sy'n para o leiaf blwyddyn, yn aml drwy'r tîm rhyngddisgyblaethol, ar sut mae modd addasu'r diwygiad i ddiwylliant yr ysgol, i'r pwnc, ac i ddamcaniaeth ymarfer personol athrawon unigol.

Felly ein gwaith ni fel addysgwyr athrawon yn y prosesau hyn oedd hwyluso prosesau dysgu'r athrawon a'r ysgolion, ond peidio dweud wrthyn nhw beth i'w wneud – roedd yn rhaid iddyn nhw feddwl am hynny. Ac yna mae'n rhaid i'r pennaeth wneud yn siŵr bod amser gweithio, ac nid amser rhydd, yn cael ei glustnodi ar gyfer prosesau dysgu'r athrawon, i wneud yr ymchwil i weithredoedd, i'w drafod. A hefyd yn y prosiectau hyn, pan fyddai athro newydd yn dod i'r ysgol, byddai ef neu hi'n cael eu mabwysiadu gan y tîm, oedd yn mentora rhywun newydd yn ofalus am y broses o ganfod ei ffyrdd ei hun o fewn y broses.

Felly, fel y dywedais, fy mhryder yw nad oes gan y bobl sy'n gwneud y newidiadau, yr amser a'r adnoddau, o ardaloedd unigol i'r genedl gyfan. Ac yna mae newidiadau'n dod yn rhai cosmetig – mae athrawon yn gwneud yr hyn y dywedwyd wrthynt ei wneud.

Jen Farrar

Mae synnwyr go iawn felly – mae'r pwysau i wneud, oherwydd mae pwysau ar y polisi a'r diwygwyr i gyflawni pethau, i wneud gwelliannau, i weld canlyniadau. Felly mae gennym gwricwlwm newydd, mae gennym y diwygiadau yma. Sut mae'r plant yn gwneud? Ac felly rydych yn dweud bod cywasgiad, y pwysau hwnnw, yn achosi i Gam 2 gael ei anwybyddu, a'r hyn sy'n bodoli i bob pwrpas yw beth oedd yn bodoli cynt efallai, ond wedi ei wisgo ychydig bach yn wahanol?

Kari Smith

Yn union, Ac ie, dof yn ôl at hynny yn nes ymlaen, hefyd, oherwydd pan fyddwch yn gofyn beth ellid ei wneud? Dw i wir yn meddwl bod yn rhaid i'r gwneuthurwyr polisi hefyd ddeall bod diwygiad yn cymryd amser i setlo. Ac rydym wedi profi hynny, er enghraifft mewn addysg athrawon Norwyaid. Rydym wedi cael un yn ddiweddar, hyd at 2017, dw i'n gwybod eu bod yn siarad yn barod am wneud un newydd eto, cawsom hyd at dri, bedwar diwygiad o fewn degawd neu ddau. Ac mae hynny'n golygu nad oes gennym unrhyw syniad pa ddiwygiadau sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, oherwydd does gennym ni ddim. Dydyn ni ddim yn gorffen gydag un garfan cyn i'r diwygiad newydd gael ei fewnoli. Dw i'n meddwl mai dyna'r broblem.

Jen Farrar

lawn, lawn, yn union. Felly yr amser hwnnw, angen amser i setlo, i ymgartrefu, i weld canlyniadau.

Kari Smith

Ie, cam dau

Jen Farrar

Cam dau.

Kari Smith

Felly, mae ei roi mewn camau wedi fy helpu'n fawr i weld pethau'n eglur.

Jen Farrar

Ie, dw i'n ei gael o gymorth mawr fy hun. Dw i wedi bod yn sgriblo diagram bach. Trueni na allaf ei ddangos i chi [chwerthin]. Ond ie, dw i'n credu, yn enwedig os gall y newid o'r top i lawr fod yn gosmetig, felly y peth y mae gennym ddiddordeb go iawn ynddo yma yw'r darn canol hwnnw. Wrth symud ymlaen felly, yn y tensiynau hynny rydym wedi eu hystyried yma, sut ydym ni'n eu cefnogi nhw felly? Rydym wedi sôn yn barod am roi amser, ac rydym wedi sôn am fentora – oes unrhyw ffyrdd eraill y gallwn gefnogi athrawon, efallai yn arbennig mewn creu symudiad o ddiwylliannau asesu i asesu perfformiad – o'r perfformiadau allanol efallai tuag at un sydd wedyn yn canolbwyntio ar asesu dysgu, ac yn enwedig pan mae

athrawon yn wynebu pwysau ac arolygon atebolrwydd, y math hynny o beth. Beth arall? Oes yna unrhyw dactegau neu syniadau? Rydym wedi sôn am eich 3 cham. Oes unrhyw beth arall yn y gofod hwnnw a fyddai'n ddefnyddiol efallai yn eich barn chi?

Kari Smith

Dw i'n meddwl fy mod i wedi ateb y cwestiwn yma'n rhannol yn fy ymateb manwl blaenorol. Mae angen i athrawon gael amser i ddeall beth mae'n ei olygu i asesu dysgu.

Jen Farrar

Oes.

Kari Smith

Sut mae hyn yn newid yr arferion a'r technegau y dywedwyd wrthynt eu defnyddio, ac yr oeddent yn eu defnyddio er mwyn atebolrwydd? Maen nhw wedi arfer â hynny – maen nhw'n asesu er mwyn atebolrwydd i raddau mawr iawn.

Felly, i'r rhan fwyaf ohonom, allwn ni ond ei dderbyn. Rydym yn bryderus pan mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth newydd – iawn, mae'n rhywbeth rydyn ni'n teimlo'n ansicr yn ei gylch. Rydym yn teimlo ansicrwydd proffesiynol mewn ffordd, hyd yn oed y rhai ohonom sydd â phrofiad gweddol hir. Felly, dw i'n meddwl, dod yn gyfarwydd â damcaniaethau cymell a dysgu, a ddysgwch pan fyddwch yn gwneud eich addysg athro, ond dydych chi ddim yn ei gysylltu'n ddigonol â'ch arferion. Sut i roi adborth a'i ddwyn yn ei flaen heb ei drosi'n radd. Cofio pwysigrwydd bod yn effeithiol eich hun a'ch rheoleiddio eich hun, ac ati, mae'n cymryd amser, a dw i'n meddwl ei bod yn broses ddysgu galed. Mae'n rhaid i ni gefnogi athrawon i ganfod eu ffyrdd eu hunain. Felly, dw i'n cefnogi'n gryf, ac yn credu mewn, prosiectau ymchwil gweithredol, hunan-astudiaethau, ac ati sydd ar waith dros amser. Lle mae athrawon yn cydweithio i wneud hynny.

Rydw i newydd gael un o'm myfyrwyr PhD. Ie, fe orffennodd flwyddyn neu ddwy yn ôl. Ac fe weithiodd ar ddysgu cydweithredol a'r buddion y byddai myfyrwyr yn eu cael o ddysgu cydweithredol. Ond fe wnaeth hyn drwy wneud i athrawon weithio'n gydweithredol er mwyn dysgu sut i weithio'n gydweithredol â'r myfyrwyr. Felly, roedd yn rhaid iddynt deimlo yn eu cyrff eu hunain, mewn prosiect ymchwil gweithredol gyda'i gilydd, yn hydredol dros

ddwy neu dair blynedd, sut i gael holl fuddion dysgu cydweithredol i'w myfyrwyr eu hunain go iawn. Felly rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth sydd, fel y dywedais, yn cymryd amser.

Jen Farrar

Dw i'n meddwl mai'r hyn sy'n dod i'r amlwg yma, mae gennym ni'r rhain, wyddoch chi, y synnwyr hwnnw o amser, ac mae gennych chi leisiau'r athrawon a'u profiadau. Ac felly ys gwn i a allem ni felly ddod â rhywbeth i mewn yma y mae gennych chi ddiddordeb ynddo, rhywbeth rydych wedi ei grybwyll yn barod, sef lleisiau'r dysgwyr, asesiad dewis gorfodol. Felly, a allech chi ddweud ychydig bach mwy wrthym am hynny nawr? Sut y gallwn efallai ddefnyddio'r arferion hyn yn benodol mewn perthynas â meddwl sut mae cynnydd yn edrych i ddysgwyr yn y gofod hwn. Os ydych, fel y dywedoch chi, wyddoch chi, ac wrth feddwl sut i roi adborth, sut i fwydo pethau ymlaen heb roi gradd. Sut ydym ni'n diffinio sut y gallai cynnydd edrych? A sut allwn ni ddefnyddio'r dysgwyr fel adnodd ar gyfer hynny hefyd? Mae'n gwestiwn enfawr. Sori, Kari.

Kari Smith

Ydy, dw i'n gwybod, mae yn gwestiwn enfawr, oherwydd y cwestiwn yr oeddwn wedi ei ofyn i mi fy hun yn barhaol oedd – beth yw cynnydd? Pwy sy'n penderfynu bod yn rhaid dysgu A cyn B mewn pwnc penodol? O fewn disgyblaeth, rydym yn fframio rhan fechan o'r gofod gwybodaeth ddisgyblaethol enfawr ac yn ei alw'n gwricwlwm. Ac yna rydym yn cymryd y rhan honno ac yn ei rhannu'n dargedau cymhwysedd. Ac mae'n rhaid i'r dysgwyr i gyd symud ymlaen yn unol â'r continwmm hwn o'r top i lawr sydd wedi cael ei benderfynu.

Dw i'n cofio pan ddysgais fod yn athro Saesneg, athro Saesneg fel iaith dramor. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i ni ddysgu un agwedd o'r amser presennol – y presennol parhaol – cyn y presennol syml.

Jen Farrar

lawn

Kari Smith

Ni roddwyd esboniad i ni yn yr addysg athro. Pam? Dim ond mai hynny oedd y drefn yn y cwricwlwm a'r llyfrau a'r gwerslyfrau. Felly, canlyniad hynny oedd bod y dysgwyr, siaradwyr

Hebraeg ac Arabeg yn bennaf bryd hynny, yn gorddefnyddio'r presennol parhaol am hyd at 9 mlynedd ar ôl iddyn nhw ddechrau dysgu Saesneg. Am eu bod wedi dysgu hynny'n gyntaf. A dyma oedd y camgymeriad mwyaf cyffredin yn nhraethodau ysgrifenedig yr arholiadau metrig. Gorddefnyddio'r presennol parhaol.

Felly pan ddechreuais gyflwyno 2 agwedd yr amser presennol, fe esboniais y gwahaniaeth ar yr un pryd, a chafodd llawer o'r broblem ei datrys. Ond, mi es yn erbyn y cwricwlwm. Felly fy mhwynt i yn y fan yma yw dweud hynny, ydy hyn yn artiffisial? Ydy e'n rhywbeth ar hap? Ein bod ni'n dweud mai dyma'r cwricwlwm, pa ran o'r gofod gwybodaeth enfawr? Ac a ydyw'n beth sy'n digwydd ar hap fod rhai pobl yn penderfynu y dylai A ddod cyn B, a'i fod yn digwydd mewn camau un ar ôl y llall, ac mai dyma y bydd pob myfyriwr yn ei wneud. Mae hynny'n golygu nad yw'r ateb gen i, a dydw i ddim yn gallu ei ddatrys. Ond, yn fy marn i, dydyn ni ddim yn meddwl digon am y cwestiwn yma.

Felly gallwch ddweud bod arbenigwyr yn penderfynu ar hyn, ac mai'r rhain yw'r pwysicaf, ac ati. Ond mae gennym, pan mae gennym yr holl arbenigwyr yn penderfynu, ydyn ni'n defnyddio busnesau? Ydyn ni'n defnyddio diwydiannau? Ydyn ni'n defnyddio arbenigwyr eraill a ddylai fod yn rhan o'r broses o benderfynu'r cwricwlwm? Felly mae hwn yn un o'r cwestiynau sydd gen i am y cwricwlwm a chynnydd. Ac mae hyn hefyd yn fy nghysylltu â'r hyn a ddywedais am asesiad dewis gorfodol.

Dw i'n meddwl bod diffyg cydnabyddiaeth i'r ffaith bod angen cynnydd ac asesiad dewis gorfodol, mae'n agos at fy nghalon. Mae'n agos iawn at fy nghalon ac rwy'n teimlo nad ydym yn ei gydnabod ddigon.

Pan oeddwn yn athro dosbarth i ddosbarth uwchradd uwch amrywiol eu gallu, roedd gen i fyfyrwyr dawnus ar un eithaf, a myfyrwyr oedd yn cael trafferthion ar y llall, a phopeth rhwng y ddau. Roedd y plant dawnus yn diflasu. Doedd dim rhaid i mi wneud rhyw lawer er mwyn iddynt gyflawni'r nodau cymhwysedd. Doedden nhw ddim yn cael eu herio nac yn dysgu'r gwersi pwysig mewn bywyd, fel rydw i'n gweld pethau, hynny ydy bod gwaith caled yn talu ei ffordd. Doedden nhw ddim wedi eu haddysgu gan ddefnyddio *Bildung* yn yr ystyr Almaenaidd, dim ond yn derbyn mwy o wybodaeth, ond doedden nhw ddim yn cael eu haddysgu. Dylai ysgolion hefyd roi agwedd arall o addysg. Felly, fel athro, roedd yn rhaid i mi greu heriau newydd iddyn nhw, neu ddatblygu targedau newydd gyda nhw. Nid oedd yn

ddigon rhoi'r un gwaith iddyn nhw i gyd – rhoi gwaith prysur iddynt, eu cadw'n brysur.

Roedd ganddyn nhw'r hawl i gael eu herio; mae gan bob plentyn yn yr ysgol yr hawl i gael ei herio – y rhai dawnus hefyd.

Ac yna, ar yr eithaf arall, mae gennych y myfyrwyr oedd yn cael trafferthion. Rheiny oedd yn cael amser anodd cyflawni'r targedau cymhwysedd. Yn aml iawn roedden nhw'n eu hystyried eu hunain yn fethiant ac yn colli brwdfrydedd, ac yn rhoi'r ffidil yn y to. Fel y dywedasom ni, mae gennym nifer fawr yn ymadael â'r sgrin alwedigaethol. Chawson nhw ddim eu haddysgu ar gyfer bywyd chwaith. Felly yn y fan yma hefyd, roedd yn rhaid i mi roi targedau unigol iddyn nhw i adeiladu rhyw fath o ysgol ddringo gyda grisiau llai, i sicrhau eu bod nhw'n profi llwyddiant a chynnydd. Roedd ganddynt yr hawl i brofi bod gwerth mewn gweithio er mwyn cynnal y cymhelliant. Roedd ganddynt yr hawl i gael eu haddysgu fod gweithio yn talu ei ffordd. Felly, roedd gan y dysgwyr i gyd yr hawl i brofi cynnydd, fel y credaf i, p'un a ydyn nhw'n isel neu o dan y continwwm cwricwlwm safonol. Felly mae hyn yn gofyn asesiad dewis gorfodol. Ac rwy'n gweld hynny mewn addysg, ac mae hefyd yn ymwneud â'r dysgu, am bwysigrwydd ymdrech a gwaith i ymdrechu ato – i fod yn uchelgeisiol. Dydy cwricwlwm safonol ddim yn gweithio i unrhyw un o'r ddau eithaf; y rhai dawnus na'r rhai sy'n cael trafferthion. Felly rwy'n credu y gallai fod yn ddefnyddiol edrych eto ar waith Tomlinson ar addysgu gwahaniaethol a'r system asesu 3 dimensiwn – edrych ar gynnwys, proses a chynnyrch. Dyna oedd ei waith, dipyn go lew o amser yn ôl, efallai y dylem droi yn ôl ato ac edrych arno.

Jen Farrar

Gyda'r bwriad o ystyried beth mae'n gallu ei ddweud wrthym am asesiad dewis gorfodol ac yn cynnwys hynny?

Kari Smith

Mae hynny'n golygu pan fyddwch yn rhoi graddau, er enghraifft, rydym nid yn unig yn rhoi graddau yn ôl y nodau cymhwysedd. Rydym hefyd – nid yn yr un radd – yn gallu gwahaniaethu'r radd, felly gallem gael myfyriwr sydd uwchlaw'r nodau cymhwysedd.

Dawnus, da. Ond ddim yn gweithio rhyw lawer, dim ymdrech ac ati, a byddai hynny hefyd yn

y drefn graddau, yn y system asesu. Ac mae gennych rywun sydd efallai'n is na'r nodau cymhwysedd, ond mae wedi dangos cynnydd ac yn gweithio'n galed iawn. Felly, os oes gennych y system 3 yma, heb y cynnydd, myfyriwr dawnus sydd yn uwch na'r lefel cymhwysedd, wedi dechrau'n uwch, ac wedi cwblhau a gorffen yn uwch, ond nid yw'r disgybl hwnnw wedi dangos cynnydd, heb ddysgu fawr ddim. Felly mae hynny'n golygu nad yw mynd yn ôl ac edrych ar y system 3 dimensiwn yn syniad rhy ffôl.

Jen Farrar

Mae hynny'n awgrym da. Diolch yn fawr iawn. A gallwn roi'r ddolen ar gyfer y papur hwnnw hefyd.

Kari Smith

Gwaith Tomlinson ydyw.

Jen Farrar

Diolch. Diolch A dw i'n meddwl mai'r hyn rydych chi'n ei awgrymu mewn ffordd yn y fan yma yw golwg ar yr asesiad fel proses gyda mwy o arlliw iddo, a beth sy'n mynd i mewn i'r broses, a'r gwahanol agweddau sy'n gallu bod yn rhan o hynny. Ac fel y dywedwch, ystyried y dysgu sy'n digwydd, yn hytrach na dim ond y canlyniad ar y diwedd – y cynnyrch terfynol. Diolch o galon.

Nawr rwy'n ymwybodol o'r amser. Mae cymaint y gallem siarad amdano, ond roeddwn eisiau gofyn i chi am brosiect yr ydych yn cymryd rhan ynddo ar hyn o bryd. Nawr rwy'n gwybod ei fod yn digwydd ar y funud, a does dim llawer y gallwch ei ddweud wrthym, ond mae'n brosiect gyda grŵp o ysgolion sydd wedi gwirfoddoli i ddiddymu graddau. Ac mae'r data'n dal i gael ei gasglu, dw i'n gwybod na allwch ddweud llawer wrthym. Ond efallai y gallech ddweud ychydig bach wrthym am y rhesymeg y tu cefn i'r prosiect a'ch gobeithion amdano?

Kari Smith

Ie, rydym yn grŵp o addysgwyr athro sy'n gwneud gwaith ymchwil, ar draws y disgyblaethau. Ac yn arwain y grŵp mae'r Athro [enw]. Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio proses o'r gwaelod i fyny, lle mae athrawon yn penderfynu gwneud newidiadau

drwy wneud llai o ddefnydd o raddau. Felly, mae'n ymchwilio profiadau athrawon a myfyrwyr wrth ddiddymu graddau mewn ysgol uwchradd uwch. Dyna'r peth diddorol – dydyn ni ond yn canolbwyntio ar ysgol uwchradd uwch. Ac yn canolbwyntio'n bennaf ar Norwyeg, Saesneg, mathemateg a hefyd addysg alwedigaethol. Felly, rydym yn edrych hefyd ar arweinyddiaeth yr ysgol – beth yw'r canlyniadau iddyn nhw? Ac rydym hefyd yn edrych ar arferion proffesiynol athrawon gyda hyn a sut maen nhw'n gwneud hynny. A pha fath o ddatblygiad proffesiynol sy'n digwydd gyda'r athrawon ac arweinwyr yr ysgol? Rydym hefyd wedi penderfynu'n ddiweddar, oherwydd mae hyn yn rhywbeth rydw i wedi gwthio amdano, a chafodd ei dderbyn. Sef, edrych ar y ffordd mae rhieni'n teimlo am y ffaith bod eu plant yn mynd i ysgol heb raddau.

Felly, fel y dywedoch chi, rydym wedi casglu data a does dim ymyrraeth. Felly, dydyn ni ddim yn dweud wrthyn nhw sut i'w wneud eto. Dim ond edrych arno. Felly, byddai'n astudiaeth ddisgrifiadol, nid astudiaeth arbrol, a'r hydref hwn bydd yn cael ei defnyddio i ddadansoddi'r data ac i ddechrau ysgrifennu a chyhoeddi'r canlyniadau.

Jen Farrar

Felly, ga i gadarnhau – a gwneud yn glir – mai yr uwchradd uwch yw hyn? Dyma'r bobl ifanc rydych wedi sôn amdanynt, felly bydd gennych y 20% hynny, a fydd yn cael arholiad ym mlwyddyn un. Yna efallai y byddent, wyddoch chi, yn cael arholiadau ar hap ym mlynnyddoedd 2 a 3, ac yn cael graddau am yr arholiadau allanol hynny. Ond ydych chi'n golygu eu bod yn mynd heb gael eu graddio drwy gydol y flwyddyn academaidd?

Kari Smith

Yn union

Jen Farrar

Felly, wnân nhw ddim, felly mae'r gwaith o ddydd i ddydd yn arwain at ddiwedd y flwyddyn i gyd yn adborth ffurfiannol?

Ie, mae hynny'n hynod o ddiddorol. Felly gallwn obeithio clywed mwy am hynny yn yr Hydref.

Kari Smith

Rydyn ni'n gobeithio hynny. Ie, gobeithio. Pan fydd gennym y data, ac mae pobl dda yn y grŵp felly mae'n debyg y gwnawn ni rywfaint o ysgrifennu.

Jen Farrar

[chwerthin] lawn, mae hynny, wel mae hynny yn swnio'n ddiddorol iawn. A dw i'n meddwl, fel y dywedoch chi, i gael cipolwg ar y pethau fyddai'n cefnogi athrawon i symud hyn ymlaen, edrych ar y gwrthwynebiad a allai ddigwydd, ac edrych ar rieni a disgwyliadau rhieni, ac mae'r sffêr ehangach hwnnw'n ddiddorol iawn, yn ogystal â'r ffordd y mae'r bobl ifanc yn cael eu cymell gan raddau mae'n debyg o fewn y flwyddyn honno hefyd.

Kari Smith

Mae'n ddiddorol oherwydd rydym newydd gael cipolwg ar rai o'r canlyniadau. Ac mae'n ddiddorol bod y myfyrwyr cryf, mae'n well ganddyn nhw'r graddau. A dydy hynny ddim yn beth newydd.

Jen Farrar

Nac ydy, iawn, diolch. Gan feddwl am y cyfoeth o ymchwil a gwybodaeth sydd gennych ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol yn eich barn chi, a oes unrhyw beth arall a allai fod yn ddefnyddiol i gydweithwyr yng Nghymru ei wybod am yr hyn y dylai athrawon ei ddisgwyl o'r cyfnod o ddiwygiad dwys i'r cwricwlwm. Rydym wedi crybwyll amser, rydym wedi crybwyll ansicrwydd. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu ar y cam hwn?

Kari Smith

Yn gyntaf, dw i hefyd yn credu, ie. Gweithrediad y diwygiad, ni ddylai gael ei werthuso ar ôl blwyddyn neu ddwy – mae angen amser i'r diwygiad setlo, fel y dywedais. A hefyd, rydw i'n gefnogol iawn o'r mentora ffurfiannol am y broses o'i roi ar waith. Ond, dydw i ddim o blaid gwerthuswyr allanol sy'n dod i'r ysgol ac yn eistedd gyda ffurflen tic ar restr i weld bod yr athrawon yn gwneud hyn a'r llall. Dydy hynny ddim... rydw i'n gwrthwynebu pethau fel OFSTED a phethau felly yn llwyr. Mae'n ddrwg gen i.

Ond dw i'n meddwl y dylai athrawon, fel y myfyrwyr, gael caniatâd i beidio llwyddo bob tro. Ac nid cael sgorau uwch ar y prawf PISA yw'r unig ffordd o fesur llwyddiant o anghenraid. Beth os byddai'r nodau'n cynnwys cael plant sy'n hapus yn yr ysgol? Wedi dechrau eu

bywyd fel oedolyn gyda chymhelliant ac nid pwysau i wneud dysgu gydol oes – cymhelliant i wneud dysgu gydol oes, nid pwysau i wneud dysgu gydol oes. Ac i fod yn greadigol a bod â'r sgiliau i wynebu pethau du fel, er enghraifft, cyrhaeddiad Covid, pethau y byddent yn eu hwynebu nifer o weithiau mewn bywyd. Mae hynny'n golygu sut yr ydym ni'n rhoi hyn i mewn i sgiliau cymhwysedd – y galluoedd hyn? Ac rwy'n credu mai'r pethau hyn yw'r pethau y mae angen i ysgolion heddiw feddwl mwy amdanynt. Sut i fyw mewn byd o ansicrwydd, a sut i gefnogi pobl mewn dysgu, sut i reoli ansicrwydd. Oherwydd os oes gennych y cwricwlwm gyda'r nodau cymhwysedd fel yr ateb cywir neu anghywir ac yn y blaen, does dim ansicrwydd. Ond nid hynny y byddwn ei angen. Gallwn gael gafael ar unrhyw wybodaeth yr ydym ei hangen ar y rhynggrwyd. Felly, dydw i ddim yn dweud na ddylen nhw gael sail wybodaeth gref, oherwydd wedyn, dim ond wedyn, yr ydych yn dysgu sut i ofyn y cwestiynau da, os ydych yn gwybod am beth rydych yn siarad. Ond mae'n rhaid i ni hefyd ganiatáu ar gyfer gofyn i'n myfyrwyr yn yr ysgol ofyn y cwestiynau. Beth os? Ni yw'r athrawon, y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau. Does gennym ni ddim yr atebion. A dyma lle mae gen i'r broblem gyda diwygiadau newydd sy'n meddwl y byddent yn gallu ymdrin â hynny, ond yn rhoi popeth i mewn i reoliadau, ac yn y blaen.

Jen Farrar

Felly mae tensiwn yno, rhwng ceisio creu digon o le o fewn cwricwlwm i athrawon archwilio'r cwestiynau mawr hyn? Rydw i'n caru'r hyn a ddywedoch chi am, wyddoch chi, gynhyrchu cymhelliant ar gyfer dysgu gydol oes drwy gymhelliant ei hun, nid drwy bwysau. Ac yna mae gennym hyn, wyddoch chi, y synnwyr yma o densiwn, lle trwy fod yn rhagnodol a dweud, os gwnawn ni hyn, os gwnawn ni X Y Z, byddwch yn dod allan gyda'r cynnyrch yma. A phan fyddwn mewn amgylchedd lle mae pwysau mawr, does gennym ni ddim llawer o amser. Mae gennym y tensiynau hyn rhwng creu lle, creu cyfleoedd lle gallai pobl wneud camgymeriadau, lle mae pethau, wyddoch chi, athrawon yn gallu arbrofi, yn gallu archwilio, a dysgwyr hefyd, yn hytrach na'r model culach hwn. Ond fel y dywedwch chi, a ydy hynny'n wir baratoi ein dysgwyr ar gyfer y byd hwn rydyn ni'n byw ynddo?

Kari Smith

le

Jen Farrar

Ie, iawn, diolch yn fawr iawn Ac rwy'n credu eich bod wedi rhoi llawer o esiamplau i ni heddiw o Norwy sy'n hynod o ddiddorol, ac maen nhw'n ymddangos yn hynod o berthnasol i mi. Oes unrhyw sylwadau terfynol rydych eisiau eu rhoi i ni, neu wersi eraill y credwch y gallai athrawon yng Nghymru eu dysgu oddi wrth eu cyfoedion yn Norwy?

Kari Smith

Na, dim ond fy mod yn meddwl bod yn rhaid i'r athrawon yng Nghymru ac yn Norwy gael llais proffesiynol cryf. Nid yn unig pan fydd eu cyflogau'n cael eu trafod, ond wrth drafod yr addysg, cwricwlwm ac asesiad hefyd. Weithiau rydw i'n colli'r llais hwnnw. [yn dangos arwydd arian gyda'r llaw]. Yn enwedig yn Norwy. Felly byddwn yn dweud, defnyddiwch eich llais. Oherwydd rydw i'n credu y dylem ofyn i'r athrawon ddiffinio eu rolau a'u cyfrifoldebau proffesiynol a pheidio ei adael i gyd i'r gwneuthurwyr polisi.

Felly, i gloi, rwy'n credu bod yn rhaid i ni ymdrechu i gael mwy o'r hyn a alwaf yn bobl broffesiynol personol ac nid pobl broffesiynol wleidyddol. Ydych chi'n deall y gwahaniaeth? Mae'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau'n penderfynu y dylai rôl addysgu fod yn broffesiynol wleidyddol. Ond beth am yr athrawon, y bobl broffesiynol personol? Dyna'r agwedd sy'n cael ei ddefnyddio wrth weithredu yn yr ystafell ddosbarth a dylent gael caniatâd i siarad am hynny. Felly, yn Norwy, rwy'n credu ein bod yn ymdrechu drwy'r amser i wella addysg, ac rwy'n parchu hynny'n fawr. Dydw i ddim bob amser yn cytuno, ond rydw i'n parchu hynny'n fawr. Ac rwy'n credu, wrth imi ddod i adnabod Cymru, dydych chi ddim yn ofni gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r dyfodol yn edrych, dyna rydw i'n feddwl ac felly parch mawr i hynny hefyd.

Jen Farrar

Felly – mae'n ddrwg gen i.

Kari Smith

Ie, dywedaf yn fyr, does dim ateb cyflym. Ac rwy'n meddwl, hyd yn oed mewn gwledydd bach fel Cymru a Norwy, rhaid i ni dderbyn y bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu mewn gwahanol ffyrdd. Felly efallai bod y fframwaith yn un cenedlaethol, ond dylai gael ei weithredu mewn ffordd sy'n caniatáu ar gyfer amrywiaeth – amrywiaeth lleol. A hefyd, gadewch i ni gofio, dydy diwygiad newydd ddim o anghenraid yn ddiwygiad da. Felly

byddwch yn agored, cwestiynwch, byddwch yn feirniadol, a dylai athrawon fod felly hefyd mae'n debyg, maen nhw felly yn ôl yng Nghymru hefyd. Yn Norwy, gobeithio, byddwn yn hoffi iddynt fod fwy felly. Maen nhw'n ufudd iawn ym mhopeth heblaw eu cyflogau

Jen Farrar

Ond mae gweld hyn fel cyfle, y cyfnod hwn o ddiwygio, fel cyfle i roi ystyriaeth go iawn i'r proffesiynoldeb personol hwnnw, eich rôl fel athro a'ch llais fel athro o fewn y tirlun. Diolch yn fawr i chi am y geiriau olaf llawn ysbrydoliaeth hynny yn y sgwrs hynod ddiddorol hon.

Beth fydd yn digwydd unwaith y rhannwn y recordiad hwn gyda chydweithwyr yw y bydd cyfle i bobl gyflwyno cwestiynau i chi, Kari, a gallwn eu hanfon nhw atoch chi. Felly os byddai pobl yn hoffi trafod rhagor am unrhyw beth rydych chi wedi'i grybwyll, neu efallai ofyn am eglurhad, yna gallwn ddod atoch chi a chael atebion, os ydy hynny'n iawn.

Kari Smith

Mae hynny'n iawn.

Jen Farrar

Wel, diolch o galon ichi am sgwrs mor ddiddorol. Rydw i wir yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi rhoi eich amser i ni. Diolch.

Kari Smith

Diolch i chi am roi amser i mi.

Jen Farrar

lawn, diolch.

